# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Fideo Gynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Hydref 2020
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Llinos Madeley**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPPIA@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 12 gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

(09.30 - 11.30) (Tudalennau 1 - 57)

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg - Llywodraeth Cymru
Georgina Haarhoff, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cwricwlwm ac Asesu - Llywodraeth Cymru
Kate Johnson, Uwch-gyfreithiwr - Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil
Nodyn Briffio Cyfreithiol
CYPE(5)-25-20 - Nodyn o dystiolaeth fideo
CYPE(5)-25-20 - Nodyn o drafodaethau bord gron
CYPE(5)-25-20 - Dadansoddiad arolwg plant a phobl ifanc gan Wavehill

## Bydd egwyl o 10 munud yn ystod y sesiwn hwn.

(10.30)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Papurau i'w nodi

(11.30)

### 3.1 Llythyr gan Gymwysterau Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Awst

(Tudalennau 58 - 59)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-25-20 - Papur i'w nodi 1

### 3.2 Llythyr gan Brifysgol Bangor at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y trefniadau i gefnogi myfyrwyr yng ngoleuni COVID-19 (Saesneg yn unig)

(Tudalennau 60 - 62)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-25-20 - Papur i'w nodi 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.30)

## 5 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): trafod y dystiolaeth

(11.30 - 12.00)

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(12.00 - 12.30) (Tudalennau 63 - 70)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-25-20 - Papur Preifat

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**

# Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

## Tystiolaeth fideo

Yng ngoleuni'r sefyllfa iechyd cyhoeddus a'r diddordeb mawr mewn rhoi tystiolaeth o ran Bil Cwricwlwm ac Asesu Cymru, casglwyd tystiolaeth fideo gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

Casglwyd y dystiolaeth hon i ategu'r dystiolaeth lafar, y dystiolaeth ysgrifenedig, a'r themâu a oedd yn deillio o drafodaethau bord gron a thystiolaeth gan blant a phobl ifanc.

Rhoddwyd gwahoddiadau i gymryd rhan yn y fideos hyn i amrywiaeth o sefydliadau, a gwahoddwyd barn ar y themâu a ganlyn, fel y maent yn ymwneud â'r Bil. Dewiswyd y themâu hyn ar sail ystyriaeth flaenorol a pharhaus y Pwyllgor o ddiwygio'r cwricwlwm:

- Hawliau plant
- Hawliau dynol
- Iechyd Meddwl
- Gweithgarwch corfforol
- Sgiliau achub bywyd
- Addysg ariannol a sgiliau bywyd
- Hanes Cymru a hanes o safbwynt Cymru
- Cydraddoldeb Hil
- Y Gymraeg

Cyhoeddir fideo cryno, sy'n adlewyrchu barn y rhai a ymatebodd i'r gwahoddiad hwn.

Mae'r fideos llawn a gyflwynwyd gan bob sefydliad mewn ymateb i'r gwahoddiad hefyd ar gael:

- Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith
- EYST - Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
- MIND Cymru
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhaG)
- Senedd Ieuenctid Cymru - y Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm
- Senedd Ieuenctid Cymru - y Pwyllgor Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl

Caiff y dystiolaeth fideo hon ei hystyried gan y Pwyllgor ynghyd â phob math arall o dystiolaeth, a bydd yn llywio ei adroddiad a'i argymhellion.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

## Nodyn o drafodaethau bord gron rhithwir a gynhaliwyd gan y Pwyllgor PPIA ar 1 Hydref

Fel rhan o'r gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), roedd yr Aelodau am ymchwilio i **sut y byddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar grwpiau penodol o bobl**.

Oherwydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus, cynhaliodd y Pwyllgor y gwaith hwn ar ffurf pedair **trafodaeth ford gron rithwir** awr o hyd. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn ar 1 Hydref 2020 ar Microsoft Teams.

Hwyluswyd y sesiynau bord gron gan yr Aelodau. Roedd wyth i 10 cynrychiolydd o'r grwpiau a nodir isod yn cymryd rhan yn y trafodaethau bord gron hyn: **plant a phobl ifanc**; **rhieni a gofalwyr**; **addysg uwch, addysg bellach, ac addysg oedolion**; a **chyflogwyr/cyflogadwyedd**.

Lluniwyd y nodyn hwn gyda chaniatâd pawb a gymerodd ran. Mae'n crynhoi'r **prif themâu a ddaeth i'r amlwg ym mhob trafodaeth**. Diben y nodyn yw llywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r dystiolaeth ar y Bil ac adroddiad terfynol ac argymhellion y Pwyllgor. Er mwyn sicrhau preifatrwydd y rhai y siaradodd yr Aelodau â nhw, **nid yw'r sylwadau wedi'u priodoli i unigolion**.

Hoffai'r Pwyllgor **ddiolch** i'r holl blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr ac i gynrychiolwyr addysg uwch, addysg bellach, dysgu gydol oes a chyflogwyr am alluogi i'r sesiynau bord gron ddigwydd ac am roi o'u hamser i helpu'r Aelodau gyda'r gwaith hwn. Mae rhestr o'r sefydliadau a helpodd y Pwyllgor i drefnu cyfranogwyr i siarad o bob un o'r safbwyntiau hyn ynghlwm fel Atodiad i'r nodyn hwn.

# 1. Trafodaeth gyda phlant a phobl ifanc

Aelodau yn bresennol: Siân Gwenllian AS a Laura Anne Jones AS

## Pa mor dda mae'r cwricwlwm yn paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn

- **Ni ddysgir** i blant a phobl ifanc **yr hyn sydd ei angen** arnynt. Cawn ein dysgu ar gyfer arholiadau yn hytrach na dysgu sgiliau bywyd.
- Mae i'r cwricwlwm presennol ogwydd rhy academaidd. Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae angen i ysgolion feithrin yr anghenion unigol hynny. **Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ddiddordeb galwedigaethol a sgiliau crefft**.
- Mae gan y **cwricwlwm cyfredol rai elfennau da iawn,** ond mae bylchau mawr hefyd. Mae angen i'r cwricwlwm roi i bobl ifanc y sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer pob math o feysydd.
- Mae **bylchau mawr yn y cwricwlwm cyfredol o ran sgiliau bywyd**. Rydym ni'n dysgu rhai agweddau ar redeg busnes trwy Fagloriaeth Cymru, ond hoffem ni ddysgu am reoli trethi ac ati.
- Rhaid i bobl ifanc adael yr ysgol yn barod ar gyfer bywyd oedolyn ac ar gyfer y gweithle.
- Yn aml, nid yw ysgolion yn gwybod sut i ddelio ag **iechyd meddwl** disgyblion.
- Rydym ni'n dysgu am hybu iechyd da, ond **dim digon am broblemau iechyd meddwl a chyflyrau penodol**, megis ADHD. Mae hyn yn cynyddu'r stigma ar gyfer cyflyrau o'r fath a diffyg ymwybyddiaeth a all arwain at fwlio ac ati.
- Nid yw'r cwricwlwm cyfredol yn hwyluso cyfranogiad arbenigwyr - nid yn unig o ran iechyd meddwl ond o ran pynciau eraill fel busnes. Nid yr athrawon a ddylai fod yn gyfrifol am y cyfan - **dylid defnyddio arbenigedd allanol a mabwysiadu dull cydweithredol**. Dylid cynnwys y trydydd sector er mwyn dysgu amrywiaeth lawer ehangach o bynciau a sgiliau.

## Yr hyn y mae plant a phobl ifanc am ei ddysgu yn yr ysgol

- Mae dibenion y cwricwlwm newydd yn edrych yn wych, ond **rhaid inni gael y cyfle i feithrin sgiliau bywyd** megis llythrennedd ariannol a dinasyddiaeth wleidyddol.

- Addysg Perthynas a Rhywioldeb **(APRh)** a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg **(CGM)** yw **nodweddion gorau**'r cwricwlwm newydd - mae diffyg hynny yn yr ysgolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o gofio na fydd gan rieni hawl i dynnu eu plant yn ôl o wersi, gallai fod tensiynau o fewn teuluoedd a rhwng teuluoedd ac ysgolion. Bydd yn dibynnu ar gymeriad crefyddol yr ysgol. **Rhaid wrth gyfaddawd** ynghylch APRh ac CGM - mae'n **bwysig peidio â dieithrio pobl**.
- Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gwybod am eu hawliau dynol, er enghraifft Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn **(CCUHP)**.
- Mae angen i'r cwricwlwm **hyrwyddo busnes fel opsiwn**. Mae'n ffordd wych o sicrhau llwyddiant, ond nid oes llawer o amser yn cael ei dreulio arni yn yr ysgol.
- **Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar iechyd meddwl** a sut i ddelio â hormonau a materion fel pyliau o banig. Mae plant yn gorfod delio â llawer o faterion cymhleth, a'r rheini'n **waeth yn sgil COVID-19**. Mae angen i ysgolion ddysgu iddynt sut i ddelio â'r rhain.
- Mae angen dysgu meithrin gwytnwch a chefnogi ei gilydd i bobl ifanc. Hefyd mae **angen iddynt allu gwahaniaethu rhwng amrywiadau hwyl arferol a phroblemau iechyd meddwl go iawn**. Dylid ymgorffori hyn yn ethos yr ysgol gyfan.
- **Dylid ymdrin ag iechyd meddwl yn gynharach**, mewn ysgolion cynradd. Nid oes terfyn oedran ar broblemau fel gorbryder, sy'n gallu effeithio ar blant o unrhyw oedran.
- Mae plant a phobl ifanc **yn dod wyneb yn wyneb â materion yn ymwneud â pherthnasoedd a rhywioldeb yn gymharol gynnar**, felly mae'n iawn i'r pwnc gael ei ddysgu mor gynnar â phosibl. Yn ogystal, mae angen iddo ddigwydd mwy nag ychydig o weithiau'r flwyddyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac mae angen iddo fod yn fwy arbenigol.
- **Gwell fyddai dysgu ieithoedd yn gynnar** - nid yn unig y Gymraeg, ond ieithoedd modern tramor hefyd.
- Mae gan rai pobl ifanc agwedd negyddol tuag at y Gymraeg, ond mae'n esgor ar gyfleoedd o ran gyrfa a gwaith. **Mae dysgu Cymraeg yn bwysig wrth goleddu'ch diwylliant a'ch cymunedau**. Nid cymhwyster yn unig mohoni; mae'n ychwanegu at eich hunaniaeth.
- **Nid oedd barn glir ynghylch a ddylai'r Gymraeg fod yn orfodol**, er enghraifft hyd at TGAU. Roedd barn gymysg hefyd ynghylch a ddylid ei thrin yn wahanol i'r Saesneg.

## Rhinweddau rhoi mwy o ryddid i ysgolion mewn perthynas â'r hyn maen nhw'n ei ddysgu i ddisgyblion

- Os yw dylunio'r cwricwlwm yn digwydd fesul ysgol, sut y gellir sicrhau bod pob person ifanc yn dysgu hanes amrywiol? **Gallai adael y mater i ysgolion arwain at fylchau o hyd. Gallai hyn fod yn fater penodol i blant sy'n newid ysgol** - gallent fod yn newid i gwricwlwm hollol wahanol, a gallai hyn arwain at fylchau yn eu gwybodaeth a'u sgiliau. (Codwyd hyn yn benodol mewn perthynas â **Phlant sy'n Derbyn Gofal** gan eu bod yn fwy tebygol o newid ysgol.)
- O ran beth sy'n cael ei ddysgu a sut, mae'n syniad da caniatáu hyblygrwydd i ysgolion, ond gallai gwneud hyn olygu na roddir sylw i rai pynciau allweddol. **Gallai arwain at amrywiadau rhanbarthol a lleol, yn ogystal â mwy o anghydraddoldeb**, gan y byddai'n haws i ysgolion sy'n wynebu llai o heriau, ac i'r gwrthwyneb.
- Gall y bydd **rhagfarn ddiarwybod ysgolion** yn effeithio ar y cwricwlwm a roddir ar waith ar gyfer eu disgyblion. Bydd angen hyfforddiant arnynt fel y gallant gwmpasu popeth yn deg i'r holl ddisgyblion.
- Bydd ar athrawon **angen llawer o hyfforddiant a chefnogaeth** i gyflawni'r cwricwlwm newydd.
- Roedd cyfranogwyr o blaid yr egwyddorion y tu ôl i'r cwricwlwm newydd, sydd â'r **potensial i chwyldroi addysg**.
- Bydd angen trefniadau digonol sicrhau nad yw pŵer y penaethiaid i **ddatgymhwyso dewisiadau disgyblion blynyddoedd 10 ac 11** yn cael ei gamddefnyddio na'i ddefnyddio'n ormodol.
- Plant a phobl ifanc, rhieni a staff ysgolion, mae **angen i'r rhain oll gymryd rhan** wrth datblygu'r cwricwlwm newydd i sicrhau bod pawb yn fodlon ar yr hyn a addysgir.
- Ar hyn o bryd, mae gan gynnwys Yr Hyn Sy'n Bwysig yn y Dyniaethau syniad cul o beth a olygir wrth hanes. **Mae angen rhoi mwy o sylw i Hanes Pobl Dduon**.

# 2. Trafodaeth â rhieni a gofalwyr

Aelodau yn bresennol: Suzy Davies AS a Hefin David AS

## Pa mor dda mae'r cwricwlwm yn paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn

- Dylai cwricwlwm ehangach helpu ysgolion i sicrhau bod addysg yn gallu **diwallu anghenion unigol** y dysgwyr. Mae angen i'r cwricwlwm fod yn berthnasol i ddysgwyr. Dyma gyfle i wneud dysgu'n ddiddorol ac yn ddeniadol.
- Mae'n dda bod **cymhwysedd digidol** yn gyfartal â llythrennedd a rhifedd.
- Mae'n bwysig ehangu'r cwricwlwm i'w wneud yn gyfoes.
- Mae **iechyd meddwl a llesiant** yn agweddau'n bwysig iawn, yn enwedig o ystyried twf cyfryngau cymdeithasol a'u heffaith ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae llesiant yn arbennig o bwysig i blant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn arfer derbyn gofal. Mae'n bosibl na fydd rhai ysgolion yn deall effaith trawma ar ymddygiad dysgwyr (er bod hyfforddiant ACE yn helpu gyda hyn). Bydd y cwricwlwm newydd yn helpu i roi cyfle cyfartal i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal.
- Croesewir y ffaith bod materion pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hystyried yn y Bil ac y **bydd y cwricwlwm yn gallu addasu ar gyfer newidiadau posibl mewn cymdeithas**.
- Canfu arolwg gan Parentkind fod pryderon rhieni yn ymwneud ag iechyd meddwl, sgiliau bywyd, bod yn oedolyn da a meddwl yn feirniadol. Gallai'r cwricwlwm newydd fod yn **fframwaith da** i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.
- Mae angen ystyried **sut i hysbysu a 'chynnwys' rhieni ynglŷn â'r diwygiadau**. Mae angen ystyried sut yr ymgynghorir â rhieni ynghylch cwricwlwm eu hysgol leol. Dylai fod gan rieni'r gallu i gymryd rhan mewn deialog ar ddechrau'r broses. Mae cynnwys rhieni yn y broses addysg yn eu helpu i gefnogi dysgu gartref. Ar hyn o bryd, ac yn hyn o beth, nid oes cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae angen **fframwaith ymgysylltu â rhieni.**

## Manteision/anfanteision cwricwlwm lleol

- Mae angen **tebygrwydd canolog yn y cwricwlwm** gan y gall plant newid ysgol. Mae anghenion plant yn amrywio'n sylweddol; er enghraifft, mae

mwy o amddifadedd mewn rhai ardaloedd, felly gall athrawon ymateb i anghenion plant o fewn y strwythur sylfaenol.

- Roedd peth **amheuaeth ynghylch anghysondeb posibl mewn cwricwla lleol**, gan y gall fod angen cysondeb ar blant a oedd yn arfer derbyn gofal.
- Bydd angen ystyried **asesiad o ansawdd y cwricwlwm** yn ofalus, a bydd angen peth gwaith monitro (nid arolwg).
- Gall y bydd pryderon na fydd rhieni'n hyderus yn wyneb cwricwla gwahanol iawn.
- Gall y bydd athrawon **ond yn dysgu pethau maen nhw'n gyffyrddus yn eu dysgu**, ond gall datblygu proffesiynol helpu hyn.

## Addysg heblaw yn yr ysgol

- Dylai fod gan bob disgybl **fynediad cyfartal i'r cwricwlwm**. Roedd pryderon na fyddai gan ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yr **ehangder angenrheidiol yn eu haddysg**. Mae angen ar bob dysgwr yr un cyfleoedd a'r un paratoad ar gyfer bywyd fel oedolyn.
- Gall y cwricwlwm newydd fod yn fuddiol i Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) o ran darparu **addysg fwy pwrpasol** i ddysgwyr unigol.
- Ar hyn o bryd, efallai na fydd ysgolion yn diwallu anghenion plant sydd felly'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol. Gall y bydd y cwricwlwm newydd yn diwallu eu hanghenion yn well.
- Mae angen cynnwys y rhai sy'n darparu **addysg yn y cartref** (mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol) mewn unrhyw hyfforddiant.

## Elfennau gorfodol yn y Bil

### Cymraeg a Saesneg

- Croesewir y ffaith y bydd plant yn cael cyfle i **ddod yn ddwyieithog o oedran ifanc**. Dylai fod cysondeb rhwng faint o Gymraeg a faint o Saesneg sy'n cael ei ddysgu.
- Efallai y bydd problemau i'r dysgwyr hynny **nad y Saesneg na'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf**, ond sy'n dysgu'r ieithoedd hyn fel ail iaith. Gall cyflwyno trydedd iaith beri dryswch.
- Mae **proffil iaith y gymuned yn bwysig** ac mae angen ymgysylltu â rhieni.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)**

- Mae cytundeb y dylai ACRh gael ei ddysgu, ond fe ddylai fod yn briodol i'r oedran ac yn briodol i lefel dealltwriaeth y dysgwr.
- Mae angen ymgysylltu â rhieni a rhoi gwybod iddynt am yr hyn fydd yn cael ei ddysgu fel byddant yn barod am gwestiynau. Yn arolwg Parentkind, **roedd hollt mawr ym marn rhieni** efallai am nad ydyn nhw wedi cael deall beth fydd yn cael ei ddysgu.
- Mynegwyd pryderon y bydd ACRh efallai'n cael ei dysgu **i blant sydd wedi cael profiadau niweidiol, a gall hyn sbarduno ymateb negyddol** i rai plant. Efallai na fydd athrawon yn ymwybodol o brofiadau dysgwyr.

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**

- Mae'n bwysig i blant gael **dealltwriaeth eang o'r holl grefyddau neu systemau gred** gan ei bod yn cefnogi cynhwysiant. Gall plant ddangos gwerthoedd a moeseg eu rhieni.
- **Cefnogwyd dileu'r hawl i dynnu'n ôl**, ond mae dysgwyr rhai credoau o'r farn y gallai cyfranogi o rai arferion neu addysg ffydd fod yn niweidiol iddynt ac mae angen ystyried hyn.
- Mae'n bosibl y gall dileu'r hawl i dynnu'n ôl **arwain at fwy o addysg ddewisol yn y cartref** gan fod yr elfennau gorfodol yn cael eu haddysgu trwy'r cwricwlwm cyfan, felly ni all disgybl fod yn bresennol ar gyfer gwers CGM benodol yn unig.

# 3. Trafodaeth gydag addysg uwch, addysg bellach ac addysg oedolion

## Yr Aelod a oedd yn bresennol: Suzy Davies AS

- Mae'r cwricwlwm newydd yn gwneud llawer **o ran dysgu annibynnol** ac mae'n lleihau bwydo gwybodaeth. Mae'n bosibl bod pob dysgwyr wedi cael profiadau gwahanol, a gallai hyn arwain at anawsterau mewn addysg bellach, ond fe groesewir amrywiaeth ac mae colegau a phrifysgolion wedi arfer â dysgu myfyrwyr o bob cwr o'r wlad.
- Gofynnwyd a fyddai penaethiaid a llywodraethwyr, wrth greu eu cwricwla, yn cael hyfforddiant ar weithio gyda cholegau addysg bellach a chyflogwyr i fodloni gofynion yr economi leol.
- Y teimlad oedd nad oedd yn glir sut mae hyfforddiant galwedigaethol yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.
- Fe fydd **angen hyfforddiant datblygu'r cwricwlwm** ar athrawon, er mai nhw sydd wedi cyd-lunio'r cwricwlwm.
- Gall fod ysgolion yn **cydweithredu ar lefel leol a rhanbarthol ar hyn o bryd, ond mae hyn yn ôl ewyllys penaethiaid unigol.** Nid oes fframwaith i gefnogi hyn. Mae angen i hyn gael ei gyfathrebu a'i hwyluso yn well. Ar hyn o bryd, mae cydweithredu'n gweithio'n dda os yw ysgolion, awdurdodau lleol ac addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig rhaglenni na chynigir gan ysgolion er enghraifft. Y gobaith yw y bydd hynny'n parhau.
- Awgrymwyd y gellid ychwanegu **sgiliau dinesig fel pedwaredd elfen orfodol** er mwyn cynnwys dysgu am strwythurau gwleidyddol.
- Mae'n bosibl **na fydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys y 'blociau adeiladu' ar gyfer astudio mwy technegol**, ar gyfer pynciau STEM, megis peirianneg. Gall hyn effeithio ar wytnwch dysgwyr pan symudant i addysg bellach.
- Mae **angen newid ym maes addysg ôl-16**, o ystyried y newidiadau dramatig ym maes addysg cyn-16. Bydd angen i addysg bellach weithio mewn partneriaeth ag ysgolion unwaith y bydd cynnwys y cwricwlwm yn sefydlog.
- **Cymwysterau sy'n penderfynu beth sy'n digwydd yn y cwricwlwm**. Mae dysgu ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn dechrau yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae angen edrych ar lwybrau cymwysterau, gan ei bod yn ymddangos mai dim ond un math o gymhwyster sy'n cael ei werthfawrogi. Mae'n **annhebygol y bydd parch cydradd** rhwng cymwysterau galwedigaethol a

chymwysterau academaidd tro bo TGAU a Safon Uwch yn cael eu hystyried yn safon aur.

- **Dylai asesiad fod yn deg**, beth bynnag fo'i ffurf, a dylai gwahanol ddulliau asesu fod yn addas ar gyfer gwahanol bynciau. Mae'n bosibl na fydd arholiadau'n adlewyrchu dysgu myfyriwr yn ei gyfanrwydd. Nid yw arholiadau traddodiadol yn cydweddu ag anghenion llawer o ddysgwyr. Fodd bynnag, bydd cyflogwyr yn mynnu cymwysterau a graddau penodol.
- Wrth osod eu cwricwla eu hunain, mae prifysgolion yn defnyddio prosesau cymedroli a dilysu trwyadl iawn. Mae llawer o bwyso a mesur trylwyr.

# 4. Trafodaeth gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogadwyedd

Aelodau yn bresennol: Siân Gwenllian AS a Laura Anne Jones AS

## Pa mor dda mae'r cwricwlwm yn paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn

- Yn ôl cyflogwyr, **nid oes gan bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol**, gan gynnwys 'sgiliau meddal', sgiliau cyfathrebu a phrofiad gwaith.
- Mae lefelau llythrennedd a rhifedd ymysg pobl ifanc yn broblem fawr. Mae gan bobl ifanc sy'n gadael ysgol **sgiliau llythrennedd a rhifedd annigonol** a threulir llawer o amser yn y sector ôl-16 yn codi eu lefelau llythrennedd a rhifedd i'r safon ofynnol. Rhaid cadw'r ffocws ar lythrennedd a rhifedd yn y diwygiad mawr hwn o'r cwricwlwm.
- **Mae sgiliau cyfrifiadurol yn brin iawn** ymysg pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Yn aml, ni allant ddefnyddio cyfrifiaduron personol gan eu bod mor gyfarwydd â dyfeisiau llaw. Mae'n rhaid i fusnesau dreulio cryn amser ac adnoddau yn codi sgiliau digidol cyflogeion a phrentisiaid.
- Mae angen i addysg gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith ddigwydd yn gynharach, mor gynnar â'r ysgol gynradd.
- Mae rhieni'n ddylanwadol iawn o ran tynnu sylw plant i rai llwybrau gyrfaol. Mae angen i bobl ifanc **gael eu cyflwyno i ystod lawn o** yrfaoedd ac opsiynau.
- Mae COVID wedi golygu **bod busnesau wedi gorfod ailasesu eu strategaethau**, a gall hyn greu cyfleoedd i bobl ifanc, er enghraifft y rhai sydd â sgiliau marchnata digidol. Gall pobl ifanc ddod â dull ffres, gwahanol.
- **Dylid nodi addysg gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith ar wyneb y Bil**, fel y'i nodir yn y ddeddfwriaeth cwricwlwm sylfaenol bresennol. Mae angen ei hymgorffori ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad gan fod gwir angen addysg gyrfaoedd dda.

## Sut fydd y cwricwlwm newydd yn ymwneud â chymwysterau a llwybrau gyrfaol yn y dyfodol

- Mae angen ystyried y Bil yng nghyd-destun ehangach **ysgolion yn agor eu drysau i gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill** sydd mewn sefyllfa well i ddarparu rhywfaint o'r addysg gysylltiedig â gwaith i bobl ifanc.
- Yn gyffredinol, rhoddir cyngor ac arweiniad gyrfaol gan athrawon sydd fel rheol ond yn gallu rhoi cyngor ynghylch llwybrau academaidd. Mae **angen dod ag eraill i mewn o'r tu allan** i sicrhau bod ystyried addysg gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith, a'r dylanwad y mae hyn yn ei gael ar gwricwlwm yr ysgol, **mor hollgynhwysol â phosibl**. Cyflwynir y cwricwlwm mewn ysgolion, ond mae angen iddo gynnwys sefydliadau eraill.
- Mae angen canolbwyntio ar gyfranogwyr eraill ym maes addysg y tu hwnt i ddysgwyr, gan gynnwys rhieni ac athrawon. Mae llawer o athrawon sydd byth wedi gadael byd addysg, ac oherwydd hynny, mae'n bosibl mai cyfyngedig yw eu gwybodaeth a'u profiad o fyd busnes a chyflogaeth. Efallai **dylai'r athrawon eu hunain ymgymryd â phrofiad gwaith** er mwyn deall byd gwaith a busnes yn well.
- Her allweddol yw sut i **gymhwyso dysgu mewn ysgolion i gyd-destun y gweithle** ac egluro ei berthnasedd i yrfaoedd a byd gwaith.
- Ble yn y cwricwlwm y mae sgiliau, yn hytrach na chymwysterau, yn dod yn berthnasol? Ai tuag at ganlyniadau sgiliau ynteu tuag at ganlyniadau cymwysterau **y mae addysgu a dysgu wedi'u hanelu**? Mae hwn yn gwestiwn pwysig gan ei fod yn dylanwadu ar sut y gallai dysgwyr cynnar gael eu hannog i ddilyn llwybr galwedigaethol yn hytrach na llwybr academaidd.
- Mewn byd sy'n newid yn gyflym, yr her i addysg a'r economi **yw paratoi pobl ar gyfer swyddi sydd ddim yn bodoli eto**. Oherwydd hyn, mae'n rhaid i bobl ifanc fod yn hyblyg ac yn agored i lawer o wahanol lwybrau gyrfaol.
- Mae'n hanfodol cael y cysylltiad rhwng y cwricwlwm a chymwysterau. Er na ddylai addysgu a dysgu o reidrwydd ymwneud yn llwyr â chael cymwysterau, **mae gan gymwysterau eu lle, yn ddiamau, ac maent yn feincnod defnyddiol iawn** ar gyfer gallu a chyflawniad.
- Mae cymwysterau yn **dystysgrif cyflawniad ac maent yn dangos bod unigolyn yn cyrraedd safon**. Maent yn dystiolaeth bod ymgeisydd yn gallu gwneud y gwaith a chyflawni'r swyddogaethau sy'n ofynnol.
- Yn ymgynghoriad cychwynnol Cymwysterau Cymru ar ddiwygio cymwysterau ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd, fe welwyd **cefnogaeth**

**sylweddol ar gyfer cadw brand y TGAU**. Mae cyflogwyr yn cytuno â hyn ac yn annog cadw'r brand, hyd yn oed os bydd y cynnwys yn newid.

- Bydd **bob amser angen am weithlu medrus**. O safbwynt cyflogwyr, mae'r gystadleuaeth am dalent yn ffyrnig.

## Rhinweddau rhoi mwy o ryddid i ysgolion wrth roi cwricwlwm ar waith i ddiwallu anghenion eu disgyblion

- Mae **risg wrth symud o gwricwlwm rhagnodol** i un sydd â chryn lawer o hyblygrwydd. Mae angen atebolrwydd i ysgolion o hyd.
- Gallai rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion ddylunio cwricwla **arwain at fwy o amrywiad**. Ble mae'r dystiolaeth i gefnogi rhoi'r lefel hon o ymreolaeth i benaethiaid i benderfynu ar beth sy'n cael ei ddysgu i'w disgyblion?
- Gallai mwy o ymreolaeth ysgol **arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng ysgolion**, yn gysylltiedig â'r math o gwricwlwm a gynigir. Gallai ddod yn ystyriaeth bwysig wrth i rieni wneud cais am leoedd ysgol.
- Dylai Gyrfa Cymru gael mewnbwn i'r cwricwlwm y mae'r pennaeth yn ei ddylunio ar gyfer ei hysgol. Er enghraifft, dylai **gwybodaeth am y farchnad lafur leol a rhanbarthol** fod ar gael i ysgolion wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm.
- Mae'r dull a ddefnyddir yn addas ar gyfer lleoliaeth, ond **mae angen iddo fod yn fframwaith cenedlaethol, gyda'r cwricwlwm yn bwydo iddo**. Dylai fframwaith o'r fath fynd y tu hwnt i addysg, a byddai angen iddo gael ei **alinio'n agos â strategaethau economaidd**. Fel arall, gallai fod diffyg dull strategol yn y cwricwlwm newydd, yn enwedig os bydd yr ysgolion i gyd yn torri eu cwys eu hunain ac os nad yw'r cwricwlwm a ddarperir i'w disgyblion yn cael ei gysylltu'n ddigonol â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol o ran yr economi a'r gweithlu/sgiliau.
- Pwy fydd yn cymeradwyo cynllun cwricwlwm lleol ysgol? Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â rhai gofynion ond, heblaw am hynny, y pennaeth sy'n dylunio'r cwricwlwm a rhaid i'r corff llywodraethu ei fabwysiadu. Bydd llywodraethu ysgolion yn hanfodol, ond **a fydd goruchwyliaeth angenrheidiol o'r cwricwla unigol y mae ysgolion yn eu datblygu?**
- **Gweithredu yw'r broblem bosibl** yn y maes gwaith hwn. Mae'n bosibl y gall y cyfleoedd yn y Bil gynnig newid sylweddol, ond mae angen i bawb chwarae rôl i wireddu'r dibenion y tu ôl i'r cwricwlwm newydd.

# ATODIAD - Cefnogi sefydliadau

Sesiwn ford gron plant a phobl ifanc

- Comisiynydd Plant Cymru
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Voices from Care
- Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST)
- Plant yng Nghymru

Sesiwn ford gron rhieni a gofalwyr

- Parentkind
- Adoption UK
- Y Rhwydwaith Maethu

Sesiwn ford gron addysg uwch, addysg bellach ac addysg oedolion

- ColegauCymru
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp Llandrillo Menai
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- CaBan
- Prifysgolion Cymru
- Yr Athrofa: Addysg i Gymru
- Undeb Prifysgolion a Cholegau
- UCM Cymru
- Partneriaeth Addysg Oedolion Cymru

Sesiwn ford gron cyflogwyr a chyflogadwyedd

- Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru
- Siambr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Swydd Gaer
- Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol De-ddwyrain Cymru
- Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
- Groundwork Cymru
- Gyrfa Cymru
- BT

wavehill
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

# Dadansoddiad o’r Arolwg Plant a Phobl Ifanc


Hydref 2020

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi ymatebion plant a phobl ifanc i'r arolwg.

## Cefndir

Er mwyn gallu cynnwys safbwynt plant a phobl ifanc wrth ystyried y Bil, fe’u gwahoddwyd i lenwi arolwg. Roedd yr arolwg yn gofyn cyfres o gwestiynau wedi’u llunio i geisio barn y plant a’r bobl ifanc ynghylch ystod o faterion yn ymwneud â'u haddysg. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau plant a phobl ifanc o'r cwricwlwm cyfredol, yn ogystal â’u barn ynghylch agweddau ar y Bil. Am fanylion ar sut y darparwyd y wybodaeth i’r plant a’r bobl ifanc a gyfrannodd, a'r cwestiynau a ofynnwyd iddynt, gweler yr Atodiad ar ddiwedd y ddogfen.

Clywsom farn a sylwadau gan gyfanswm o 61 o blant a phobl ifanc.[1] Roeddent yn cynrychioli ystod o gymunedau ledled Cymru a gwahanol grwpiau oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc o Flwyddyn 5 i Flwyddyn 13:




[1] Yn unol â hysbysiad preifatrwydd yr arolwg, mae angen i riant neu warcheidwad roi eu hawdurdod os defnyddir gwybodaeth plant dan 13 oed. Ni roddwyd caniatâd yn achos pawb o dan 13 oed a ymatebodd. Yn yr achosion hynny, nid oedd modd defnyddio na dadansoddi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

Er mwyn deall barn yr ymatebwyr, gwnaethom gwblhau nifer o ddadansoddiadau a ddyluniwyd i ddeall tueddiadau a chryfder barn ymhlith y rhai a ymatebodd. Dylid dehongli'r dadansoddiad fel un sy'n rhoi syniad o safbwyntiau a chanfyddiadau’r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn hytrach na darparu chynrychiolaeth hollgynhwysol o farn plant a phobl ifanc ledled Cymru.

# 1 Y prif negeseuon

Ar y cyfan, roedd y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gefnogol i rai o brif egwyddorion y Bil. Roedd consensws eang ymhlith yr ymatebwyr, er enghraifft, ynghylch y cynigion o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys dileu'r hawl rhieni i dynnu plant o wersi. Roedd cefnogaeth eang hefyd i'r pwyslais yn y Bil ar ddysgu Cymraeg a Saesneg.

O ran y cwricwlwm cyfredol, roedd 95.1 y cant o'r ymatebwyr eisiau dysgu mwy yn yr ysgol a fyddai'n eu helpu wrth dyfu’n oedolion ac i gael cyflogaeth. Yr hyn oedd yn llai eglur oedd yr union sgiliau ac arbenigedd a fyddai, yn eu barn hwy, yn eu helpu i’r perwyl hwnnw. Cynigiwyd ystod amrywiol o bynciau a sgiliau academaidd a chymhwysol a fyddai, yn eu barn hwy, yn werthfawr, gydag amrediad o seryddiaeth i fecaneg ceir. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y canfyddiad bod 49.2 y cant o’r ymatebwyr yn teimlo yr hoffent weld mwy o ddewis o ran yr hyn y maent yn ei astudio.


Yn yr un modd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, awgrymodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr, yn ehangach ar draws y cwricwlwm, ei bod yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc gael yr un cyfleoedd dysgu yn yr ysgol. Er nad yw mor amlwg â'r gefnogaeth i ddarpariaeth gyffredinol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gall hyn awgrymu bod yr ymatebwyr yn teimlo bod buddion i blant a phobl ifanc wrth ddilyn un cwricwlwm sy’n gyffredin i bawb. Yn ogystal, roedd 80.3 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r rhai sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys gartref, hefyd gael yr un cyfleoedd â'r sawl sy’n yr ysgol.

O ran yr adborth y mae ymatebwyr yn ei gael ar hyn o bryd gan athrawon ynghylch eu dysgu, roedd dros ddwy ran o dair yn teimlo y gellid ei wella naill ai rywfaint neu'n sylweddol. Er y dylid dehongli hyn yn ofalus, mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu y gallai adborth fod yn rhywbeth y gellid ei wella i gefnogi dysgu a dilyniant.

I gloi, gofynnwyd i’r ymatebwyr beth oedd eu barn am sut y dylid addysgu plant a phobl ifanc yn y dyfodol. O'r 26 ymateb a gynigiodd awgrymiadau, un o’r prif faterion a godwyd oedd mor bwysig yw cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc ar bob lefel o'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

## 2 Canfyddiadau ynghylch gwerth dysgu

Gyntaf oll, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo y byddai'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol ar hyn o bryd yn eu helpu wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'r cwestiwn ei hun yn gwyntyllu'r cysylltiad rhwng yr hyn y mae ymatebydd yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ar hyn o bryd, a sut y mae'n teimlo y bydd hynny'n bwysig i'w wybod yn y dyfodol. Yn gyffredinol, roedd 65.5 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol ar hyn o bryd yn werthfawr ac y byddai'n ddefnyddiol iddynt wrth dyfu'n hŷn:





Roedd bron i 20 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn yr ysgol yn eu helpu yn y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod datgysylltiad rhwng eu dealltwriaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei wybod yn y dyfodol, a'r hyn y maent yn ei ddysgu ar hyn o bryd. Er y dylid dehongli arwyddocâd a graddfa'r canfyddiad hwn yn ofalus, mae'n amlygu rhwystr posibl i rai plant a phobl ifanc rhag gwirioneddol gysylltu â'r gwersi yn y cwricwlwm cyfredol. Ceir tystiolaeth ehangach, er enghraifft, i awgrymu y gall canfyddiadau ynghylch gwerth addysg a chynnwys gwersi ddylanwadu ar yr ymgysylltiad a geir mewn gwersi, ac yn ei dro'r lefelau cyrhaeddiad.[2]

Yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, nid oedd unrhyw dueddiadau neilltuol ac ystadegol arwyddocaol ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn.

[2] Gweler *Wang and Eccles* (2013) am drafodaeth ddiddorol ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltiad (wal dalu): https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0959475213000327


Er mwyn gwyntyllu ymhellach y safbwyntiau ynghylch gwerth a defnyddioldeb dysgu, gofynnwyd cwestiwn mwy penodol i ymatebwyr ynghylch cyflogaeth a dod yn oedolyn. Roedd 95.1 y cant o’r ymatebwyr yn teimlo yr hoffent ddysgu mwy yn yr ysgol ynghylch paratoi ar gyfer bod yn oedolyn a pharatoi ar gyfer cael swydd:




Gallai'r canfyddiad hwn awgrymu, i'r mwyafrif helaeth o’r ymatebwyr, y gallai'r cwricwlwm wneud mwy i helpu plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer bywyd ar ôl ysgol. Mae’r ymatebion hefyd yn dangos canfyddiad nad yw'r cwricwlwm cyfredol yn cynnig y pethau y maen nhw'n meddwl fydd yn bwysig iddyn nhw wrth ddod o hyd i waith ac wrth dyfu i fod yn oedolion. Mae’r sylwadau ansoddol ehangach a geir gan yr ymatebwyr yn ddiweddarach yn yr arolwg yn cefnogi'r sylw yma. I rai plant a phobl ifanc, er enghraifft, gellid gwella’r cwricwlwm trwy ddarparu ystod ehangach o bynciau ymarferol fel llythrennedd ariannol a sgiliau bywyd.

# 3 Dysgu a Dewis

Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o ddewisiadau ynghylch yr hyn y maent yn ei astudio ym mlwyddyn 9 a hŷn. Nod hyn oedd ystyried faint o bynciau sydd ar gael i blant a phobl ifanc, ac a yw hyn yn darparu ystod ddigonol o gyfleoedd dysgu o fewn trefniadau'r cwricwlwm ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, roedd 49.2 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo yr hoffent gael mwy o ddewis, ac awgrymodd 36.1 y cant fod digon o ddewis i'w gael ar hyn o bryd:




Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r ymatebwyr yn gofyn pa bynciau yr hoffent gael cyfle i'w hastudio. Cynigiodd 30 o'r ymatebwyr sylwadau a syniadau (49.1 y cant), gan awgrymu'n aml ystod o bynciau y byddai ganddynt ddiddordeb eu hastudio:

*Mwy o opsiynau iaith a sgiliau bywyd.*

Disgybl, Blwyddyn 12

*Credaf y dylai gwleidyddiaeth ac economeg fod yn bynciau sydd, os nad yn orfodol, yn ddewisol o leiaf. Hefyd credaf y dylem gael ein haddysgu mwy am newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, efallai fod hyn yn gofyn am ei bwnc ei hun hyd yn oed gan ei fod yn faes mor eang sy'n effeithio ar sawl agwedd ar fywyd.*

Disgybl, Blwyddyn 11

Roedd y mathau o bynciau a godwyd yn yr ymatebion yn amrywiol iawn eu natur. Roeddent yn cynnwys pynciau yn amrywio o'r dyniaethau, y celfyddydau a'r gwyddorau cymdeithasol hyd at bynciau sy'n aml yn fwy cysylltiedig ag addysg bellach neu drydyddol, fel meddygaeth, y gyfraith a seryddiaeth.

Ochr yn ochr â'r ystod amrywiol o bynciau, roedd nifer yr ymatebion yn isel ac mae hynny'n cyfyngu ar ein gallu i dynnu sylw at unrhyw dueddiadau ystyrlon. Roedd y pynciau a gafodd sylw arwyddocaol gan bedwar neu fwy o blant a phobl ifanc yn cynnwys:

- Ieithoedd Tramor Modern
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Seicoleg
- Newyddiaduraeth ac Astudiaethau'r Cyfryngau
- Sgiliau Bywyd e.e. cynnal a chadw ceir a thai, llythrennedd ariannol.

Mater arall a amlygwyd gan wyth, yn blant hŷn yn bennaf, oedd rôl pynciau gorfodol. Roedd rhai yn teimlo y cyfyngir ar y dewisiadau sydd ar gael iddynt, er enghraifft, tra nad oedd eraill eisiau eu hastudio o gwbl:

> *Daearyddiaeth, Hanes, gwyddoniaeth driphlyg ac ieithoedd. Mae hyn yn amhosibl tra bo'r Gymraeg, addysg grefyddol a Bagloriaeth Cymru i gyd yn orfodol*


Disgybl, Blwyddyn 12

> *Hoffwn i'r dewis i beidio ag astudio'r Gymraeg i lefel TGAU.*

Disgybl, Blwyddyn 10

# 4 Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Saesneg


Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr a yw'n bwysig i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu'r Gymraeg a’r Saesneg yn yr ysgol. Awgrymodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig dysgu'r ddwy iaith yn yr ysgol, sy'n awgrymu cefnogaeth eang i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil:





Fodd bynnag, awgrymodd 29.5 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd yn bwysig dysgu'r ddwy iaith, a bod dysgu naill ai Cymraeg neu Saesneg yn ddigonol. Ategir hyn mewn atebion ansoddol eraill, gan gynnwys gan y rhai a deimlai yr hoffent optio allan o ddarpariaeth benodol, megis TGAU Cymraeg.

# 5 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynigion ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd 82 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion i bob plentyn a phobl ifanc ddysgu am sut i gynnal cyfeillgarwch a pherthnasoedd iach:





Gan wyntyllu'r canfyddiadau ymhellach, roedd 62.3 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo na ddylai fod gan rieni a gofalwyr yr hawl i dynnu plant a phobl ifanc o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac felly roeddent yn cytuno â'r sefyllfa a nodir yn y Bil:




# 6 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Yn yr un modd, cafwyd cefnogaeth sylweddol gan yr ymatebwyr o blaid y diwygiadau arfaethedig i wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd 86.9 y cant o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion, gan gynnwys i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu am grefyddau, credoau, a gwahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylem drin ein gilydd:





Unwaith eto, roedd cryn gefnogaeth o blaid dileu hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi Crefydd, werthoedd a Moeseg. Teimlai 68.9 y cant o'r ymatebwyr na ddylai fod gan rieni a gofalwyr yr hawl i dynnu plant a phobl ifanc o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:




# 7 Cyfleoedd dysgu yr un fath i bawb

Er mwyn deall barn yr ymatebwyr ar agweddau eraill ar y cwricwlwm, gofynnwyd iddynt a ddylai pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ddysgu am yr un math o bethau. Awgrymodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr y credent ei bod yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc mewn ysgolion ledled Cymru ddysgu'r un math o bethau. Er nad yw mor amlwg â'r gefnogaeth o blaid y gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gyffredinol, gall hyn awgrymu bod yr ymatebwyr yn teimlo bod manteision i blant a phobl ifanc yn sgil dilyn un cwricwlwm cyffredin.




Er mwyn gwyntyllu’r mater hwn ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a ddylai plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg y tu allan i leoliadau ysgol, gan gynnwys yn y cartref, ddysgu'r un pethau â phlant eraill. Cytunodd 80.3 y cant o blant ei bod yn bwysig bod pob plentyn yn dysgu'r un pethau:



# 8 Safbwyntiau ar Adborth

Er mwyn deall barn yr ymatebwyr ar yr adborth a geir ar eu dysgu, gofynnwyd iddynt a oeddent yn meddwl am y ffordd y mae athrawon yn cyfathrebu sut hwyl y maent yn ei gael arni a'r pethau y gallent eu gwneud yn well. Mae adborth yn rhan bwysig o ddysgu. Mae corff sylweddol o ymchwil sy'n awgrymu y gall adborth effeithiol gael cryn effaith ar ddysg a chyrhaeddiad.[3] At ei gilydd, roedd 57.4 y cant o'r ymatebwyr yn hapus â'r adborth a gawsant, gyda rhai amodau. Yn hyn o beth, roeddent yn teimlo bod yr adborth a gânt gan athrawon yn weddol, ond weithiau roedd angen ei egluro mewn gwahanol ffyrdd. Roedd 26.2 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo'n fodlon â'r adborth a gawsant, ac roedd 16.4 y cant yn teimlo y gellid ei wella:




Dylid dehongli arwyddocâd y canfyddiadau hyn yn ofalus. Mae yna lawer o ffactorau sy'n cyfrannu at adborth effeithiol, ac efallai na fydd y rhain yn gywir wrth gyfleu sylwadau a chanfyddiadau plant a phobl ifanc y tu hwnt i'r rhai a ymatebodd. Fodd bynnag, mae'n awgrymu y gallai gwella adborth fod yn ffordd effeithiol o ennyn canlyniadau mwy cadarnhaol, gan gynnwys canfyddiadau disgyblion o'u haddysg ond hefyd eu dysg a'u cyrhaeddiad. Nid yw'r data yn ystadegol arwyddocaol, ond o ran niferoedd crai mae pobl ifanc sy'n hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo y gellid gwella adborth na grwpiau blwyddyn iau.

---

[3] Gweler er enghraifft, y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2018) i gael crynodeb o'r dystiolaeth sy'n cefnogi adborth effeithiol: https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/generate/?u=https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/toolkit/?id=131&t=Teaching%20and%20Learning%20Toolkit&e=131&s=

# 9 Troi at y Dyfodol

I grynhoi, gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu barn am sut y dylid addysgu plant a phobl ifanc yn y dyfodol. O'r 26 ymateb a gynigiodd awgrymiadau, un mater allweddol a godwyd oedd pwysigrwydd cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc ar bob lefel o'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion:

> *Credaf fod angen addysgu plant mewn amgylchedd llai gormesol sy'n fwy rhydd, nid yw'r system addysg bresennol yn gadael llawer o le i ddewisiadau personol nac i blant a phobl ifanc ddatblygu annibyniaeth a'u barn eu hunain. Hefyd, dylai ysgolion ganolbwyntio mwy ar bethau y mae'n rhaid i chi wybod amdanynt mewn bywyd, er enghraifft morgeisi neu sut i gael swydd neu sut mae'r llywodraeth yn gweithio ac ati.*
>
> Disgybl, Blwyddyn 11

> *Mae angen i ni gael ein trin fel oedolion ifanc a bod athrawon yn gwrando ar ein barn.*
>
> Disgybl, Blwyddyn 10

Llorenc O'Prey a Tony Jones
Hydref 2020
Llorenc.oprey@wavehill.com

# Atodiad

Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol y Senedd a thynnwyd sylw rhanddeiliaid y Pwyllgor ato i annog cyfranogiad gan blant a phobl ifanc.

Roedd yr arolwg yn darllen fel a ganlyn:

> Mae'r hyn sy'n cael ei addysgu i blant a phobl ifanc yn yr ysgol yn mynd i newid.
>
> Bydd rheolau newydd y mae'n rhaid i ysgolion eu dilyn – 'cwricwlwm' yw'r enw ar y rheolau hyn
>
> Rydym am wybod beth rydych chi'n ei feddwl!
> Mae'r arolwg hwn wedi ei lunio ar gyfer plant a phobl ifanc blwyddyn ysgol 5 oed neu hŷn. Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn ein helpu i benderfynu a allai'r cynlluniau ar gyfer dysgu yn y dyfodol fod yn well ai peidio, i chi a phlant eraill yng Nghymru. Nid oes raid i chi ysgrifennu llawer, a gallwch chi ateb yn Gymraeg neu'n Saesneg, chi sydd i benderfynu.
>
> Os ydych chi'n oedolyn, neu os hoffech roi mwy o wybodaeth nag sy'n bosibl ar yr arolwg hwn, gallwch ymateb i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth.
>
> Pwy ydym ni?
> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ydyn ni. Mae'r Pwyllgor yn grŵp o wleidyddion sy'n gwneud penderfyniadau pwysig. Ein gwaith ni yw gwrando arnat ti, a thrwy wneud hynny gallwn ni geisio gwella bywyd i blant yng Nghymru.
>
> Rydym yn gofyn ichi ddarllen y ddogfen yma fel y gallwch ddeall sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu.
>
> Os wyt ti o dan 13 oed, mae angen i ti ofyn i'r oedolyn sy'n gofalu amdanat ti a wyt ti'n cael ysgrifennu aton ni. Gellir darparu'r caniatâd hwn drwy e-bost gan dy riant neu warcheidwad i SeneddPPIA@senedd.cymru

Yn ogystal â gofyn i'r ymatebwyr dweud beth yw eu blwyddyn ysgol a'r ardal y maent yn byw ynddi yn fras, roedd yr arolwg yn gofyn y cwestiynau a ganlyn gan ofyn i'r ymatebwyr ddewis yr ateb a oedd yn cynrychioli eu barn orau:

> A fydd yr hyn yr wyt ti'n ei ddysgu yn yr ysgol ar hyn o bryd yn dy helpu di pan fyddi di'n hŷn?
>
> - Bydd - rwy'n credu y bydd yn helpu
> - Na fydd - dydw i ddim yn credu y bydd yn fy helpu
> - Dwi ddim yn siŵr
>
> A hoffet ti ddysgu mwy neu lai yn yr ysgol am baratoi ar gyfer bod yn oedolyn a pharatoi ar gyfer cael swydd?

- Rydw i eisiau dysgu mwy o bethau yn yr ysgol i fy helpu i baratoi ar gyfer bod yn oedolyn
- Rydw i eisiau dysgu llai o bethau - rwy'n credu fy mod i'n gwybod digon i fy helpu i baratoi ar gyfer bod yn oedolyn
- Na hoffwn - dwi'n meddwl bod yr hyn rydw i'n dysgu amdano nawr yn gweithio'n dda
- Dwi ddim yn siŵr

Wyt ti’n meddwl y dylai pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ddysgu am yr un math o bethau?

- Ydw – rwy’n meddwl bod hynny'n bwysig.
- Nac ydw – dylai pob ysgol a'i hathrawon gael penderfynu
- Dwi ddim yn siŵr

(Ateba’r cwestiwn hwn dim ond os wyt ti ym mlwyddyn 7 neu'n hŷn)
A oes gan ddisgyblion ddigon o ddewisiadau o ran yr hyn y maent yn ei astudio ym mlwyddyn 9 ac yn hŷn?

- Oes - rwy'n credu bod digon o ddewisiadau pwnc ar gyfer blwyddyn 9
- Nac oes - hoffwn i gael mwy o ddewisiadau
- Dwi ddim yn siŵr
- Dydw i ddim ym mlwyddyn 7 neu'n hŷn

Pa fathau o bynciau yr hoffet ti gael y dewis i'w hastudio
*[Gwahoddwyd atebion penagored]*
A yw'n bwysig i bob plentyn ddysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol?

- Ydy, yn bendant
- Nac ydy – rwy'n credu bod dysgu naill ai Cymraeg neu Saesneg yn ddigon – does dim angen y ddwy iaith
- Dwi ddim yn siŵr

Beth wyt ti’n ei feddwl am gynlluniau ar gyfer addysgu pob plentyn a pherson ifanc am sut i gynnal cyfeillgarwch a pherthynas iach?

- Rwy'n credu y dylai pob plentyn ddysgu am y pethau hyn
- Dydw i ddim yn credu bod angen i bob plentyn ddysgu am y pethau hyn
- Dwi ddim yn siŵr

A ddylai rhieni a gofalwyr gael cyfle i leisio barn o ran a yw plentyn dan 16 oed yn dysgu am gynnal cyfeillgarwch a pherthynas iach?

- Dylai rhieni gael cyfle i leisio barn os yw plentyn o dan 16 oed
- Na – mae angen i bob plentyn ddysgu am y pethau hyn
- Dwi ddim yn siŵr

Beth wyt ti'n ei feddwl am gynlluniau i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu am grefyddau, credoau, a gwahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylem drin ein gilydd?

- Rwy'n credu y dylai pob plentyn ddysgu am y pethau hyn
- Dydw i ddim yn credu bod angen i bob plentyn ddysgu am y pethau hyn
- Dwi ddim yn siŵr

9.A ddylai rhieni a gofalwyr gael cyfle i leisio barn ynghylch a yw plentyn o dan 16 oed yn dysgu am grefyddau, credoau, a gwahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylem drin ein gilydd?

- Dylai rhieni gael cyfle i leisio barn os yw plentyn o dan 16 oed
- Na – mae angen i bob plentyn ddysgu am y pethau hyn
- Dwi ddim yn siŵr

A ddylai plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol ddysgu'r un pethau â'r rheini sydd yn yr ysgol?

- Dylent - mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn dysgu'r un pethau
- Na - dylent gael dysgu gwahanol bethau
- Dwi ddim yn siŵr

Beth yw dy farn ar y ffordd y mae athrawon yn dweud wrthot ti sut rwyt ti'n ei wneud yn yr ysgol, ac am bethau y gallet ti eu gwneud yn well?

- Mae pethau'n cael eu hegluro i mi yn dda
- Mae'n iawn, ond weithiau mae angen egluro pethau i mi mewn ffordd wahanol
- Dyw'r drefn ddim yn dda, ac mae angen egluro pethau i mi mewn ffordd wahanol yn aml
- Dwi ddim yn siŵr

A oes unrhyw beth arall yr hoffet ei ddweud wrthym am y ffordd rwyt ti'n meddwl y dylid dysgu plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol?
[*Gwahoddwyd atebion penagored*]

**CYPE(5)-25-20 - Papur i'w nodi 1**

Dros e-bost

At Lynne Neagle, Aelod o'r Senedd
Cadeirydd y Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

12 Hydref 2020

Annwyl Lynne

Yn y cyfarfod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst, bu ofyn i ni am ragor o wybodaeth am effaith y graddau safonedig arfaethedig a'r Graddau Asesu Canolfannau (CAGs) ar grwpiau penodol o ddisgyblion. Mewn ymateb i'r cais hwn, rydym heddiw wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r canlyniadau terfynol a ddyfarnwyd yn haf 2020 ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Safon Uwch yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad o newidiadau ar lefel canolfannau, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn 2020 o gymharu â'r newidiadau a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae canlyniadau 2020 yn cael eu cymharu â'r CAGs a'r graddau safonedig a ddyfarnwyd yn wreiddiol. Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ynghyd â'n datganiad.

Rydym wedi rhannu'r adroddiad hwn gyda'n grŵp rhanddeiliaid 2021 er mwyn cyfeirio ato, ac wedi darparu'r wybodaeth fel tystiolaeth bellach ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad pellach ddiwedd mis Hydref yn rhoi dadansoddiad pellach o'r canlyniadau terfynol a ddyfarnwyd yn haf 2020 yn ôl nodweddion gwarchodedig mewn asesiad manylach o'r effaith ar gydraddoldeb, gan adeiladu ar y dadansoddiad cychwynnol a ddarparwyd yn ein trosolwg o'r canlyniadau, a gyhoeddwyd ar 4 Medi.

Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu atom yn gofyn am gyngor ar yr opsiynau ar gyfer 2021. Byddwn yn darparu, ac yn cyhoeddi, cyngor i'r Gweinidog cyn bo hir. Bydd ein cyngor ni, argymhellion yr adolygiad annibynnol, a barn rhanddeiliaid yn helpu'r Gweinidog i benderfynu ar y dull cyffredinol o ymdrin â'r trefniadau asesu ar gyfer 2021 ddiwedd y mis hwn. Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau, athrawon, cyrff dyfarnu ac eraill i sicrhau bod y dull cytûn yn cael ei roi ar waith cyn gynted ac yn ddidrafferth â phosibl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad ystadegol neu unrhyw weithgaredd arall, yna mae croeso i chi gysylltu â mi.

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr

CYPE(5)-25-20 - Papur i'w nodi 2

# Response from Bangor University

**Re: Letter from Senedd CYPE Committee**

Firstly may I apologise that this response from Bangor University is so late you will be aware that the Bangor area has been placed into a Health Exclusion Zone and therefore last week and the start of this week have been particularly busy. I have answered the questions below, but if you require further information please don't hesitate to come back to me.

**The COVID-19 measures you have taken in relation to your own accommodation, and how you have worked with Purpose Built Student Accommodation (PBSAs) and private landlords (NB please refer to arrangements for both term and vacation periods);**

Only en-suite accommodation is in use this year at Bangor University, all shared bathroom facility halls have been closed. Hand sanitizer points are available in all Halls, and appropriate social distancing signage has been installed. Cleaning of communal areas (corridors, stairwells, lifts, etc.) occurs 7 days a week and includes multiple cleans of touch points per day. The residential estate has three electrostatic disinfecting machines which are utilised in the communal areas. In addition, students have been provided with additional cleaning material in kitchens and are asked to keep communal areas clean at all times. In relation to university staff visiting flats for planned and reactive maintenance protocols have been put in place including PPE for staff, and the use of an advance questionnaire regarding Covid-free declarations. The Halls Offices/Receptions/Security lodges have all been reconfigured including physical screening to ensure the health and safety of both staff and students. The University is in communication with local private student halls and those private landlords that are registered with us to provide them with additional information in relation to Covid-secure practices.

**How you intend to support – or have been supporting – all students (on and off-campus) who have needed to self-isolate, including how you would support large numbers self-isolating at the same time in a dignified manner (i.e. the provision of food and drink that meets dietary requirements, medicine, mental health support and other essentials);**

All students who are self-isolating are provided with information on sources of support both from our Student Services department (including financial hardship and counselling support) and also external sources (such as online support platforms specifically for Covid-19 issues). We have a number of mechanisms in place for those who are isolating in halls, such as providing students with extra cleaning products and bin bags, systems for students to order food deliveries and also contacts for student support, including halls wardens, security staff and student support services. Urgent postal deliveries such as medicinal items and study supplies are being delivered where possible by the Halls and post room teams. Students who are self-isolating in the community are supported by the Students' Union to obtaining provisions and essential supplies. Our Coronavirus and Mental Health page aims to provide information and guidance to help maintain mental and physical health. To make sure students can access support wherever they are, all of Student Services will be available online to support students. In addition, students on campus will be able to book face-to-face appointments with Disability Advisers, Mental Health Advisers, Counsellors and a range of other Student Support staff.

**The provision you have in place for identifying and addressing student hardship;**

Please see answer to the question above, and in addition a means tested Digital Hardship Fund is available for new and returning students. This fund can provide means tested support for unexpected costs that students are unable to cover.

**Your approach to working with students on COVID-19 measures and actions, including self-isolation;**

We continue to update our student 'frequently asked questions' webpage with new information as it becomes available.

We have worked in partnership with Undeb Bangor (Students' Union) to develop a Covid Community Commitments for students. The Commitment outlines the expectations and responsibilities and the of the University, students and the Student's Union.

To keep students informed about any changes and developments that are taking place in the University, our Student Services team are sending regular bulletins to the student community. These bulletins will highlight important and useful information on Covid-19 and support available to students (booking a test, reporting a positive result, keeping safe, Student Support services etc). We have also provided students with further guidance on self-isolating for students living in Halls.

The University is working closely with local authorities, Public Health Wales and the local health board to monitor reported positive tests for Covid-19 within the student community. We have robust plans in place to respond to any concerning rise in cases including a bespoke Portal which assists us in managing our confirmed Covid positive cases. The local Contact Tracing team is working closely with the university to identify and notify students who have undertaken testing. A dedicated mailbox is monitored 7 days a week for correspondence and queries from students.

Students can also engage fully in the online elements of our social programmes such as Campus life and Students' Union events. We are also providing resources, so students are able to continue with their studies. We plan to make online content available for the whole year so if students are unable to be on campus due to Covid-19 they will still be able to continue their studies.

Students living in Halls signed up to a Covid Code of Conduct when they signed their contract and this is displayed on all Hall front doors. It's a reminder to abide by the regulations and to be a responsible part of the student community.

We are taking breaches of the regulations very seriously and will use our student disciplinary procedures where there is a need to do so both for students living in halls and in the community.

**How you are working and integrating with the public health and civil contingencies machinery within your local authorities and local resilience fora (to include confirmation of whether you have on-campus testing facilities for students);**

The University is represented on both the Gwynedd and Anglesey Incident Management Teams which currently meet frequently. The University has an onsite testing facility at Ysbyty Enfys for students.

**How you have engaged – and are engaging – with the local population, in particular where you have campuses in rural local authorities;**

In addition to representation on the Gwynedd and Anglesey IMT and partnership working on communications we are posting updates on our social media platforms of the measures which the University is taking in relation to ensuring the health, safety and wellbeing of our University community and the local community. We are also meeting this week with both local and county councillors to brief them on the steps we are taking.

Once again please accept my sincere apologies for the lateness of this response.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon